PROSIECT GWYRDD DATGANIAD I'R WASG

26 Ionawr 2010

Troi problem yn adnodd

Mae ymgyrch Gwybodaeth Prosiect Gwyrdd yn parhau â sioeau ffordd ym mhob ardal awdurdod lleol.

Cynhelir sioeau ffordd gwybodaeth ym mhob ardal awdurdod lleol i barhau i hysbysu preswylwyr ynghylch 'Prosiect Gwyrdd' – partneriaeth gwastraff i ddarparu datrysiad i wastraff sy'n weddill ar ôl ailgylchu a chompostio i'r eithaf ym mhob ardal.

Mae 'gwastraff' yn fater sy'n effeithio ar bawb, mae pawb yn ei gynhyrchu ac mae angen i bawb gymryd cyfrifoldeb i leihau'r swm a gynhyrchant ac ailgylchu a chompostio cymaint â phosibl. Mae preswylwyr yn dod i dderbyn ailgylchu a chompostio, gyda'r mwyafrif yn defnyddio'r cynlluniau a ddarperir i ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi. Mae'r 5 partner yn parhau i ddatblygu cyfleusterau ailgylchu a chompostio ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth i weithio tuag at y targedau ailgylchu a chompostio heriol a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC).

Ailgylchu a chompostio cymaint o wastraff â phosibl yw blaenoriaeth pob un o'r partneriaid ond mae'n rhaid rhoi'r cyfleusterau yn eu lle i ddelio â'r 30% o wastraff sy'n weddill.

Yn y sioeau ffordd bydd gwybodaeth ar gael yn esbonio'r cefndir i'r prosiect, y cyd-destun cenedlaethol, disgrifiadau o'r opsiynau posibl ar gael a chwestiynau cyffredin. Bydd staff o'r Tîm Prosiect hefyd ar gael i ateb cwestiynau gan y cyhoedd.

Cynhelir cam nesaf y sioeau ffordd yn yr ardaloedd canlynol:

- Bro Morgannwg: Dydd Sadwrn Ionawr 30, Sgwâr y Brenin, Y Barri
- Sir Fynwy: Dydd Mawrth Chwefror 9, Marchnad Caldicot, Caldicot.
- Casnewydd: Dydd Iau Chwefror 18, Marchnad Casnewydd, Canol Dinas Casnewydd.
- Caerdydd: Dydd Sadwrn Chwefror 27, Heol-y-Frenhines, tu allan i McDonalds, Canol Dinas Caerdydd.
- Caerffili: Dydd Mawrth, Mawrth 2, Maes parcio Cliff Road/Hall Street Y Coed Duon.

Dywedodd y Cynghorydd Mark Stephens, Cadeirydd y Cyd Bwyllgor:

"Roedd y mwyafrif o bobl a fynychodd y sioeau ffordd wedi mwynhau. Nid yw gwastraff yn fater braf iawn ond mae'n fater sy'n effeithio ar bawb a gobeithiwn y bydd y cyhoedd yn cymryd diddordeb ac yn ymweld â'r digwyddiadau hyn i ddysgu am y prosiect, yr opsiynau posibl sydd ar gael a siarad â staff os oes ganddynt unrhyw gwestiynau. Mae'r holl wybodaeth ddiweddaraf ar y Prosiect ar gael ar-lein ar www.prosiectgwyrdd.co.uk.

a gyhoeddwyd gan prosiect gwyrdd
e-bost: info@prosiectgwyrdd.co.uk
dros y ffôn: 029 20 717523